



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Datganiad polisi ar addysg uwch



# Cynnwys

|  |    |
|--|----|
| Cyflwyniad   | 2  |
| Arloesi a thwf economaidd                                | 5  |
| Cyflogadwyedd  | 8  |
| Y llwyfan rhwngwladol                                    | 11 |
| Ehangu mynediad at addysg uwch                           | 15 |
| Cydlynu rhanbarthol – cydgordio addysg ôl-16 yng Nghymru | 18 |
| Profiad myfyriwr amrywiol a nodedig                      | 20 |
| Cyfoethogi ansawdd                                       | 24 |
| Ymchwil: adeiladu system o safon fyd-eang                | 27 |
| Addysg cyfrwng Cymraeg                                   | 30 |
| Modelau cyflenwi newydd                                  | 32 |
| Cyllido a chymorth i fyfyrwyr yn y dyfodol               | 34 |
| Cydnabyddiaethau   | 35 |

# Cyflwyniad


Hanes o lwyddiant sydd i addysg uwch Cymru. Mae'r sector addysg uwch yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru – mae prifysgolion Cymru'n cyfrannu dros £3 biliwn y flwyddyn mewn gwariant gros i economi Cymru, gan gyflogi 24,600 o bobl gyda throsiant blyneddol o £1.3 biliwn. Mae cyfraniad y sector at dwf economaidd cynaliadwy yn eang – drwy greu gwybodaeth, datblygu gweithlu â sgiliau uchel ac ymgysylltu â chymunedau lleol.

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau'n ymrwymedig i agor addysg uwch i bawb sydd â'r potensial i elwa arni. Rydym ni wedi gweld llwyddiant yma hefyd – mae'r nifer o fyfyrwyr sy'n byw yng Nghymru sydd wedi'u cofrestru mewn addysg uwch yn y DU wedi codi o 93,405 yn 2000–01 i 102,110 yn 2011–12.

Yn gyffredinol mae ein prifysgolion yn sgorio'n uchel mewn arolygon o foddhad myfyrwyr. Maen nhw wedi bod yn fwy llwyddiannus yn sicrhau cyfranogiad gan fyfyrwyr o gefndiroedd annhraddodiadol nag y mae ardaloedd eraill o Brydain. Mae ganddynt gryfderau sylweddol o ran ymchwil ac addysgu ac rydym ni'n falch fod Cymru'n fewnforiwr net o fyfyrwyr gyda pharch uchel i'w system addysg uwch ar draws y byd.

Mae'r newidiadau i'r drefn o gyllido addysg uwch a'r trefniadau cyllido myfyrwyr yng Nghymru a gyflwynwyd yn 2012–13 wedi gosod AU mewn sefyllfa ariannol gryfach o lawer. Casgliad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yw mai cyfartaledd y cynnydd cyllido i sefydliadau AU (SAUau) yng Nghymru yw 13.8 y cant yn 2013–14. Yn seiliedig ar y tybiaethau a geir yn y model cyllid myfyrwyr, mae'r tabl isod yn cadarnhau y bydd y sector AU yn parhau i dderbyn cynnydd yng nghyfanswm ei hincwm tan 2020–21 o leiaf, os yw'r sefydliadau'n gallu recriwtio'r niferoedd o fyfyrwyr a ddyrannwyd iddynt. Fodd bynnag bydd y ffigurau hyn yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad gwariant nesaf a'i effaith ar gyllid Llywodraeth Cymru.

Siart 1: Rhagamcan o incwm SAUau Cymru â ffioedd gwybyddus cyfartalog a grant ffioedd dysgu, telerau arian parod\*



Ffynhonnell: modelu Llywodraeth Cymru'n seiliedig ar ddata hanesyddol yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a rhagamcanion grant CCAUC yn seiliedig ar dueddiadau cyfredol.

\* Ceir nifer o dybiaethau yn y modelu, sy'n tybio y bydd dyraniad Llywodraeth Cymru i CCAUC yn wastad o 2015–16 ymlaen ond y bydd ffioedd dysgu yn cynyddu yn unol â chwyddiant. Yn ogystal mae'r model yn tybio y bydd lefelau cyfredol o lif traws-ffiniol a recriwtio myfyrwyr yn parhau ar y lefelau cyfredol.

Mae'r sector AU wedi profi newid sylweddol. Ymunodd mathau newydd o ddarparwyr â'r farchnad dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn caiff nifer sylweddol o gysiau AU eu haddysgu mewn colegau addysg bellach. Gyda datganoli daeth pwerau newydd i Gymru gan alluogi Llywodraeth Cymru i weithio'n agosach gyda phrifysgolion a darparwyr AU eraill. Mae gweithredu argymhellion adolygiad Browne gan lywodraeth y DU wedi golygu newid sylfaenol i'r modd y caiff addysg uwch ei chyllido. Mae'r trefniadau newydd o ran cyllido addysg uwch wedi dod â newidiadau dilynol i'r modd rydym ni'n cynorthwyo dysgwyr mewn addysg uwch.

Mae newidiadau strwythurol wedi'u gyrru gan Lywodraethau olynol Cymru wedi arwain at sector addysg uwch gryfach a mwy cynaliadwy yng Nghymru. Ym mis Ebrill eleni, unodd Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru Casnewydd i greu Prifysgol De Cymru i wasanaethu holl ranbarth de ddwyrain Cymru. Dechreuodd Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Fetropolitan Abertawe weithredu fel un sefydliad yn 2012 ac mae cynlluniau yn datblygu i uno'r sefydliadau hyn yn ffurfiol yn ddiweddarach yn 2013. Erbyn diwedd 2013 felly, bydd gan Gymru nifer lai o brifysgolion cryfach – sefydliadau sydd mewn gwell sefyllfa i gystadlu ar lwyfan y byd a chyfrannu at lesiant economaidd, addysgol, diwylliannol a chymdeithasol Cymru.

Mae hi nawr yn briodol felly i gloriannu ac ystyried dyfodol addysg uwch yng Nghymru yn y dirwedd newydd hon. Amcan y datganiad polisi hwn yw gosod gweledigaeth newydd i addysg uwch yng Nghymru wrth i ni agosáu at 2020. Gan adeiladu ar lwyddiannau'r blynyddoedd diweddar a chryfderau addysg uwch Cymru, mae'n gosod set glir o flaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr AU a gyda CCAUC i wireddu ein huchelgais cyffredin ar gyfer system addysg uwch o ansawdd byd-eang yng Nghymru sy'n gwasanaethu buddiannau dysgwyr a'r genedl yn yr unfed ganrif ar hugain. Fe gredwn ni y gall y cydweithio agos hwn rhwng y Llywodraeth a'r sector ei hun fod er budd pawb.



## Arloesi a thwf economaidd

**Neges allweddol:** Mae twf yn y dyfodol o ran swyddi newydd yn fwyaf tebygol o ddod o'r galwedigaethau sgiliau uchel sydd â chyfran uchel o raddedigion. Mae rhyngweithio rhwng prifysgolion a busnes yn bwysig i hybu arloesi a thwf economaidd ac mae ymchwil ac arloesi mewn prifysgolion yn helpu i greu clystyrau diwydiannol uchel eu gwerth. Ar gyfer agwedd tymor hir lwyddiannus bydd rhaid cael buddsoddiad dros gyfnod hir yn y meysydd allweddol sy'n cynnig cyfleoedd i Gymru.

Mae'r cyswllt rhwng addysg uwch ac arloesi'n un cryf. Mae gwledydd â lefelau uchel o arloesi'n tueddu i fod â hanes cryfach o fuddsoddi mewn addysg uwch a chyfrannau uwch o raddedigion yn eu poblogaethau<sup>1</sup>. Mae rhyngweithio rhwng prifysgolion a busnes yn bwysig ar gyfer hybu arloesi a thwf economaidd<sup>2</sup>, ac mae ymchwil ac arloesi'n helpu i greu clystyrau diwydiannol uchel eu gwerth<sup>3</sup>. Amlygodd Adolygiad Wilson<sup>4</sup> a gyhoeddwyd yn 2012 sut y gall enw da byd-eang prifysgolion gyfoethogi eu cyfraniad i lesiant economaidd a chymdeithasol os caiff y brifysgol ei gosod wrth galon economi gwybodaeth, gan gyfrannu yn nhermau:

- masnacheiddio
- cyfnewid gwybodaeth
- darparu graddedigion â sgiliau priodol
- denu mewnfuddsoddi newydd
- gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd.

Bydd ffyniant tymor hir Cymru mewn economi fyd-eang yn dibynnu ar ei gallu i feithrin arloesi sy'n wirioneddol drawsnewidiol ei natur ac a all gyflenwi buddiannau cymdeithasol ac economaidd tymor hir gwirioneddol. Arloesi sy'n gyrru twf economaidd, gan gynnwys creu mentrau a swyddi newydd. Tra bo buddsoddiadau eraill yn bwysig o bosibl ar gyfer twf tymor byr, caiff ffyniant economaidd tymor hir ei bennu yn bennaf drwy Gronni Gwybodaeth a chynnydd technolegol<sup>5</sup>. Gellir sicrhau enillion ansoddol sylweddol i'r economi wrth i gystadleuaeth arwain at nwyddau a gwasanaethau â gwerth uwch.

Mae twf o ran swyddi newydd yn y dyfodol yn fwyaf tebygol o godi o'r galwedigaethau sgiliau uchel sydd â chyfran uchel o raddedigion. Tra bo twf mewn cwmnïau newydd ar draws y DU wedi edwino'n gyffredinol, yng Nghymru mae cwmnïau newydd gan raddedigion wedi cynyddu, sy'n dyst i wytnwch cymharol sefydliadau arloesol a arweinir gan sgiliau uchel<sup>6</sup>.

<sup>1</sup> Universities UK. "Higher Education in Focus: Driving Economic Growth - Higher Education a core strategic asset to the UK." 2011 [www.universitiesuk.ac.uk/highereducation/Pages/DrivingEconomicGrowth.aspx](http://www.universitiesuk.ac.uk/highereducation/Pages/DrivingEconomicGrowth.aspx)

<sup>2</sup> Lambert Review of Business–University Collaboration - Final Report gan Richard Lambert (HMSO, 2003)

<sup>3</sup> Addysg Uwch Cymru. "Buddsoddi ar gyfer y Gwelliant." 2011


<sup>4</sup> A Review of Business–University Collaboration gan T Wilson (Chwefror 2012)

<sup>5</sup> The OECD Innovation Strategy: Getting a head start on tomorrow (OECD, 2010)

<sup>6</sup> Universities UK. "Higher Education in Focus: Driving Economic Growth - Higher Education a core strategic asset to the UK." 2011

Mae prifysgolion Cymru'n cydnabod bod ras fyd-eang i greu economïau sgiliau uchel ac maent yn gyfranogwyr brwd. Mae gwledydd eraill yn buddsoddi'n drwm mewn arloesi, ac mae'n debygol y gwelir cynnydd enfawr yn y nifer o raddedigion yn fyd-eang yn enwedig o wledydd megis Tsieina neu Dde Korea. Fel rhan o'i raglen *Horizon 2020* mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi argymhell y dylid buddsoddi 3 y cant o Gynnyrch Mewnwladol Cryswth mewn arloesi i gydnabod yr angen i Ewrop barhau i gystadlu'n llwyddiannus.

Mae Prifysgolion yn cyfrif am tua hanner o'r holl wariant ymchwil a datblygu yng Nghymru<sup>7</sup>. Mae Cymru'n llusgo ar ôl rhannau eraill o'r DU o ran buddsoddiad gan y sector breifat mewn ymchwil a datblygu – er gwaethaf cyfran Cymru o boblogaeth y DU, sef 5 y cant, mae buddsoddiad busnes mewn ymchwil a datblygu yng Nghymru tua 1.5 y cant yn unig o gyfanswm y DU. Mae hyn yn golygu fel cenedl ein bod yn llawer mwy dibynnol ar fuddsoddiadau ein prifysgolion yn hyn o beth na gweddill y DU.



Mae prifysgolion yng Nghymru yn perfformio'n well na'r disgwyl wrth rhyngweithio â busnesau, gan berfformio'n uwch na'u pwysiad nominal o 5 y cant yn nhermau incwm o ymchwil cydweithredol, gan gynnwys cyllid cyhoeddus ac incwm busnes o raglenni adfywio a datblygu, yr oriau o ddatblygiad proffesiynol parhaus a gyflenwir, digwyddiadau celfyddydau perfformio, y niferoedd o fusnesau deillio a newydd gan staff a graddedigion sydd wedi goroesi dros dair blynedd a mynychwyr digwyddiadau perfformio y telir amdanynt. Mae gan y sector nifer o lwyddiannau nodedig a phrifysgolion Cymru hefyd sydd â'r lefelau uchaf o ymgysylltu â mentrau bach a chanolig o unrhyw ranbarth yn y DU.

Ar yr un pryd mae rhai meysydd lle mae cyfran Cymru o incwm yn sgil rhyngweithio â busnes yn gymharol isel, yn rhannol oherwydd y cyfuniad o ddiwydiannau a sail y pynciau yng Nghymru. **Mae prifysgolion yng Nghymru yn gwybod bod rhaid iddynt fabwysiadu ymagwedd fwy cydweithredol ragweithiol a strategol i uchafu incwm o gontractau ymchwil ac ymgynghori, patentau ac eiddo deallusol. Bydd agenda strategol *Gwyddoniaeth i Gymru yn gydran allweddol ar gyfer darparu'r sail wyddonol ar gyfer llwyddiant yn y dyfodol yn y maes hwn ac rydym ni'n gwybod y bydd prifysgolion yng Nghymru'n rhyngweithio'n frwd â'r prosiect hwn.***

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru. "Gwariant Ymchwil a Datblygu yn ôl gwledydd y DU." StatsCymru. Mawrth 2012



Mae cefnogaeth Llywodraeth Cymru i brifysgolion a busnes yn hanfodol yn y cyd-destun hwn. Un enghraifft o'r fath yw'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dylunio Cynnyrch ac Ymchwil Datblygu (PDR) ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd.

### **Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dylunio Cynnyrch ac Ymchwil Datblygu**

**(PDR):** Mae gwaith y Ganolfan o ansawdd ryngwladol ac yn cael effaith ar Gymru drwy gynorthwyo diwydiant i fod yn fwy cystadleuol, gan wthio ffiniau gofal iechyd arbenigol ac mae bellach yn dechrau mynd i'r afael â rhai o broblemau mawr cymdeithas. Mae prosiect y Ganolfan Trosglwyddo Gwybodaeth Cynllunio Gwasanaeth a gyflenwir gan PDR ac a gyllidir gan Lywodraeth Cymru yn unigryw yn y modd y mae'n cynorthwyo'r sector gweithgynhyrchu i ddeall sut y mae'n rhoi gwir werth i'w chwsmeriaid. Mae llwyddiant y prosiect wedi gosod Cymru yng nghanol datblygiadau yn y maes hwn ac o ganlyniad, ym mis Tachwedd 2013, bydd Caerdydd yn cynnal cynhadledd Fyd-eang y Rhwydwaith Cynllunio Gwasanaeth, gan ddenu hyd at 400 o weithwyr cynllunio proffesiynol i Gymru o bob rhan o'r byd. Er 1998, mae PDR wedi bod yn cymhwyso dylunio a thechnolegau prototeipio cyflym i heriau meddygol anodd megis adlunio pen a gwddf yn dilyn trawma neu afiechyd. Erbyn hyn caiff PDR ei chydnabod yn ganolfan ryngwladol o ymarfer gorau, a llynedd bu'n gweithio'n agos gyda chlinigwyr ar draws y DU i gynllunio a chynhyrchu dros 450 o fodolau a dyfeisiadau meddygol i leihau amser yn y theatr lawdriniaeth a gwella canlyniadau i gleifion. Drwy arwain y rhaglen *Cefnogi Arloesi yn Defnyddio Dylunio yn y Gwasanaethau Cyhoeddus yn Rhanbarthau Ewrop* (SPIDER) mae PDR yn helpu i ymdrin â dwy broblem gymdeithasol allweddol a wynebir yng ngogledd orllewin Ewrop, NEETs a heriau'n ymwneud â phoblogaeth sy'n gynyddol oedrannus.

Mae twf a arweinir gan arloesi'n fwyaf tebygol o gael ei gyflawni drwy bartneriaeth gyfartal rhwng prifysgolion, Llywodraeth Cymru a busnes i ddatblygu ecosystemau arloesi llwyddiannus. Y bartneriaeth hon sydd wrth galon strategaeth Llywodraeth Cymru *Arloesi Cymru*. Byddai dull tymor hir llwyddiannus yn gorfod gweld buddsoddi cynaliadwy yn y meysydd allweddol sy'n cynnig y cyfleoedd gorau i Gymru, gan gynnwys y tri Maes yr Her Fawr a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru. Yn benodol, mae'n hanfodol fod Cymru'n manteisio ar Gyllid Ewropeaidd i gynorthwyo twf o ran datblygu ymchwil ac arloesi. Rydym ni'n gwybod y **bydd prifysgolion Cymru'n chwarae** rhan lawn a gweithredol yn y gwaith hwn.

## Cyflogadwyedd

**Neges allweddol:** Mae llwyddiant economaidd yn dibynnu ar ehangu gweithlu â sgiliau a galluoedd uchel. Mae gwella cyflogadwyedd holl raddedigion sefydliadau Cymru, o bob oed a chefnidir, drwy lefelau a moddau astudio amrywiol, o lawn amser i ran amser, israddedig neu ôl-raddedig, yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth ac i brifysgolion. Bydd gweithio gyda busnesau i fodloni eu hanghenion o fudd i raddedigion a busnesau yng Nghymru ac yn gosod prifysgolion wrth galon twf economaidd.

Mae darparwyr AU yng Nghymru'n gweithio i wella cyflogadwyedd eu holl fyfyrwyr. Mae prifysgolion Cymru eisoes yn cyflawni canlyniadau rhagorol wrth gynhyrchu graddedigion sy'n barod am waith. Mae tua 91 y cant o raddedigion cyrsiau gradd gyntaf llawn amser yng Nghymru yn gyflogedig a/neu'n astudio o fewn chwe mis i adael addysg uwch, sy'n uwch na chyfartaledd y DU<sup>8</sup>.



Ar draws y sector gyfan, mae sefydliadau AU yn gwneud cynnydd da at wella cyflogadwyedd graddedigion, a chyfoethogi dysgu yn y gweithle. Ers 2010, mae rhaglen codi ansawdd Cymru gyfan *Cyfeiriadau'r Dyfodol*<sup>9</sup> a gydlynwyd gan yr Academi Addysg Uwch (AAU) wedi casglu a rhannu ymarfer da ar draws y sector. Mae prifysgolion Cymru'n mynd i'r afael â'r

<sup>8</sup> HESA – Cyrchfannau'r sawl sy'n gadael AU (EDUC0067:Percentage of first degree leavers in work or further study, <https://stats.wales.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Performance-Indicators/PercentageOfFirstDegreeLeaversInWorkOrFurtherStudy-by-Institution-Year>

<sup>9</sup> *Cyfeiriadau'r Dyfodol i Addysg Uwch yng Nghymru*, nodyn briffio, Awst 2011

agenda dysgu ar gyfer cyflogaeth mewn amrywiol ffyrdd – drwy gael myfyrwyr yn datrys ‘problemau byd real’, datblygu mentrau cynllunio datblygiad personol mewn cydweithrediad clos rhwng staff gyrfaoedd ac academiaidd, a modiwlau addysg gyrfaoedd ar-lein.

**Enterprising You:** Cyllidwyd y rhaglen hon yn wreiddiol i gynorthwyo myfyrwyr rhan amser, ac mae wedi ehangu i roi cymorth posibl i ddatblygiad proffesiynol a phersonol pob myfyriwr, gyda sgiliau menter yn elfen sylfaenol hanfodol. Mae'n defnyddio cyswllt gwe i ganiatáu ymgysylltu a datblygu myfyrwyr er mwyn cynyddu eu cyflogadwyedd a'r nod yw darparu offeryn i academyddion ei ddefnyddio o fewn y cwricwlwm a chodi proffil dysgu entrepreneuriaidd, sgiliau menter a chyflogadwyedd ym Mhrifysgol Glyndŵr a'i rhanddeiliaid. Mae cyfres o saith adnodd e-ddysgu byr yn canolbwyntio ar gyfeirio gweithredu sydd ar gael i'r holl fyfyrwyr a staff. Mae'r adnoddau'n annog datblygu sgiliau menter yn gysylltiedig â deilliannau dysgu ac yn datblygu cyflogadwyedd drwy osod cyfres o dasgau rhyngweithiol i fyfyrwyr. Mae'r rhain yn heriau wedi'u cynllunio i esbonio, datblygu a phrofi sgiliau menter allweddol megis creadigrwydd ymarferol, y gallu i ddatrys problemau gydag atebion gwreiddiol, gweithio mewn tîm, gosod targedau a meddwl strategol, cynllunio tasgau a rheoli adnoddau.

Mae prifysgolion yng Nghymru hefyd wedi gwneud cynnydd mawr gan gyfoethogi profiad dysgu'r myfyriwr i'r sawl sy'n dysgu mewn cyflogaeth. Mae *Cyfeiriadau'r Dyfodol* wedi canolbwyntio ar achredu rhan neu holl raglen dysgu myfyrwyr drwy roi cydnabyddiaeth ffurfiol i brofiad yn y gweithle. Mae'r ymarfer arloesol sydd eisoes i'w weld yng Nghymru yn cynnwys ymdrechion i ddatblygu cymhwyster academiaidd ffurfiol ar gyfer cynorthwywyr cymorth dysgu mewn ysgolion lleol, gan roi profiad o ymchwil 'byw' gwirioneddol i fyfyrwyr, a galluogi myfyrwyr i ddilyn cwricwlwm modiwlwr sy'n canolbwyntio ar y cyflogwr drwy ddulliau dysgu hyblyg.

Mae cyflwyno Adroddiadau Cyflawniad Addysg Uwch i fyfyrwyr israddedig yn gam arwyddocaol. Mae'n darparu templed safonol clir, gan ganolbwyntio ar ehangder cyflawniad y myfyrwyr, gyda darlun cyfoethog o'u cyflawniad cyffredinol mewn addysg uwch. Bydd yr adroddiadau'n caniatáu i gyflawniadau ychwanegol y myfyrwyr gael eu cofnodi, er enghraifft cyflawniadau fel cynrychiolydd myfyrwyr, capten tîm rygbi, neu olygydd papur newydd myfyrwyr. Rydym ni'n gwybod y bydd Prifysgolion Cymru'n gweithio mewn partneriaeth gyda'u hundebau myfyrwyr i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chipio a'i gwirio ar gyfer yr Adroddiad Cyflawniad.

**Dyfarniad Cyflogadwyedd Prifysgol Bangor:** Fel prif gerbyd ar gyfer datblygu sgiliau cyflogadwyedd, mae Dyfarniad Cyflogadwyedd Bangor yn cynnig fframwaith i ganiatáu i fyfyrwyr dystio a chyfleu eu sgiliau cyflogadwyedd yn glir i ddarpar gyflogwyr. Cyflenwir y dyfarniad drwy'r ysgolion academiaidd ac mae'n cynnwys elfen orfodol o adfyfrio ar y sgiliau cyflogadwyedd a ddatblygwyd drwy'r rhaglen gradd gan hybu ymwreiddio sgiliau cyflogadwyedd yn y cwricwlwm. Mae asesiadau ar gyfer y dyfarniad yn seiliedig ar adfyfrio gyda chefnogaeth tacsonomeg gynhwysfawr o sgiliau gan gynnwys cyfeiriad at restr y CBI. Ceir elfen orfodol o brofiad gwaith yn y dyfarniad a all gynnwys gwaith rhan amser i sicrhau nad yw myfyrwyr sy'n gorfod ennill arian yn cael eu heithrio. Mae'r Dyfarniad yn cynnwys elfen ddwyieithog i annog cydnabyddiaeth o werth sgiliau cyfrwng Cymraeg a sgiliau iaith eraill, ac mae sgiliau menter ac entrepreneuriaeth wedi'u gwreiddio yn y cynllun. Gan fod hwn yn fframwaith yn hytrach nag yn rhaglen, caiff y llwybr drwy'r dyfarniad ei deilwra i anghenion unigol y myfyrwyr.

**Rydym ni'n gwybod y bydd prifysgolion yng Nghymru'n annog** ymgysylltu ehangach a mwy ystyrion gan gyflogwyr ac yn siapio dysgu, addysgu ac asesu i wella cyflogadwyedd graddedigion. Drwy weithio ar draws y brifysgol i gynyddu'r nifer a'r amrywiaeth o gyfleoedd profiad gwaith ystyrion sydd ar gael i fyfyrwyr mewn amgylchedd â chynhaliath bedagogaid, bydd prifysgolion yn datblygu diwylliant sefydliadol dyfnach sy'n hybu cyflogadwyedd, beth bynnag y pwnc, modd neu lefel.

**Fy Antur Dr Who:** Ymunais i â'r gyfres fel Cyfarwyddwr Celf Goruchwyliol Cynorthwyol ar ôl graddio ar ddechrau Cyfres Dau. Dyma fy rôl gyntaf mewn teledu ac yn fuan dysgais am y gwaith dan lygad gofalus Stephen Nicholas a Chymrawd Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC) Edward Thomas oedd yn rhedeg yr Adran Gelf ar y pryd. Ddeng mis yn ddiweddarach, cyhoeddodd Russell T Davies fod cyfres *Torchwood* yn dechrau a newidiodd ein briff yn llwyr. Roeddem ni bellach yn cynllunio ac yn saethu dwy gyfres â phroffil uchel yr un pryd, a des i'n Gynllunydd Cyswllt ar Gyfres Tri. Rhoddodd CBCDC brofiad gwaith ymarferol, etheg gwaith a gallu technegol i mi allu eistedd yn unrhyw le mewn adran gelf yn y byd teledu. Rwyf i nawr yn gweithio ar y cyd-gynhyrchiad Starz/BBC Worldwide o *Da Vinci's Demons* – antur greadigol enfawr arall. Dyw hi ddim yn syndod fod gennym ni, ar y cynhyrchiad hwn sydd ag adran gelf o 50, 15 o raddedigion CBCDC yn gweithio gyda ni'n barhaol, a llawer mwy yn achlysurol.

## Y llwyfan rhyngwladol

**Neges allweddol:** Bydd prifysgolion a Llywodraeth Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu cysylltiadau rhyngwladol a fydd yn cynorthwyo Cymru i ddod yn bartner y bydd busnes a buddsoddiad rhyngwladol yn ei ddewis, ac yn gyrchfan i fyfyrwyr a staff rhyngwladol. Mae angen i Gymru gryfhau a gwneud y defnydd gorau o werth y cysylltiadau rhyngwladol sydd eisoes wedi'u sefydlu gan brifysgolion, gan ddefnyddio'r cysylltiadau hyn i yrru mewnfuddsoddi. Rhaid i Gymru anfon neges gyson dramor ein bod ni'n agored i fusnes a bod myfyrwyr rhyngwladol yn ychwanegu at gyfoeth ac amrywiaeth y corff myfyrwyr ac felly bod croeso a gwerth iddynt. Rhaid cefnogi myfyrwyr a staff yng Nghymru i fod yn symudol yn rhyngwladol – drwy adleoli'n gorfforol i wlad arall, neu drwy gyfranogiad ar-lein cynyddol gyda chymheiriaid rhyngwladol.

Yn 2011, roedd 3.7 miliwn o fyfyrwyr yn symudol yn rhyngwladol<sup>10</sup>. Mae Cymru eisoes yn genedl ddeniadol iawn i fyfyrwyr rhyngwladol, ac yn cynnig profiad unigryw, bywiog. Ym mlwyddyn academaidd 2011–12 roedd dros 25,000 o fyfyrwyr nad oeddent yn hanu o'r DU yn astudio yng Nghymru<sup>11</sup>. Er mwyn sicrhau bod y niferoedd o fyfyrwyr rhyngwladol sy'n ymgeisio ac yn astudio yng Nghymru yn parhau i godi, rhaid chwalo rhwystrau – boed yn rhai gwirioneddol neu ganfyddedig.

Bydd Cymru'n parhau i gael ei gweld fel gwlad agored a chroesawgar gan fyfyrwyr a staff rhyngwladol sy'n dod ag amrywiaeth cyfoethog i'n prifysgolion a'n cymunedau. Mae myfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru yn cynhyrchu cyfraniad â gwerth ychwanegol o dros £140 miliwn y flwyddyn i'r economi. Mae presenoldeb myfyrwyr rhyngwladol ar ein campysau (boed yn ffisegol neu'n rhithiol) hefyd yn gwneud cyfraniad mawr at ryngwladoli profiad y myfyriwr, gan gyfoethogi dysgu ac addysgu, a helpu i baratoi graddedigion Cymreig yn well ar gyfer marchnad lafur rhyngwladol ac amrywiaeth o leoliadau diwylliannol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cefnogi prifysgolion yng Nghymru i gyflawni twf cynaliadwy yn y niferoedd o fyfyrwyr rhyngwladol dilys.

Mae prifysgolion yng Nghymru'n gweithio'n galed i gynorthwyo myfyrwyr rhyngwladol drwy gydol eu cyfnod fel myfyrwyr<sup>12</sup> – o'r cyfnod cyn iddynt gyrraedd a chyn y sesiwn hyd at gyflogadwyedd a'r camau nesaf y tu hwnt i raddio. Drwy gynnig cyfleoedd profiad a lleoliad gwaith gwell i fyfyrwyr, graddedigion a staff o Gymru gyda chwmnïau ar draws y byd, gall prifysgolion ddangos y math o ymroddiad a chefnogaeth sydd wedi golygu bod Prifysgol Aberystwyth wedi'i dethol yn un o brifysgolion gorau'r DU yn y cynllun 'Gwyddoniaeth heb Ffiniau'.

<sup>10</sup> Higher Education in Focus: Universities UK – Driving Economic Growth (Universities UK, 2011)

<sup>11</sup> HESA

<sup>12</sup> Banc Adnoddau Oes Myfyrwyr Rhyngwladol (AAU)

**Gwyddoniaeth heb Ffiniau:** Cynllun ysgoloriaeth gan Lywodraeth Brasil yw hwn a'i nod yw anfon 100,000 o fyfyrwyr Brasil ar gyrsiau rhyngosod israddedig, cyrsiau rhyngosod PhD a chysiau PhD llawn, gan astudio gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg a'r diwydiannau creadigol yn y prifysgolion gorau drwy'r byd. *Gwyddoniaeth heb Ffiniau y DU* yw'r rhaglen symudedd myfyrwyr fawr gyntaf i'w gweithredu yn y DU ac mae Prifysgol Aberystwyth wedi'i dethol yn un o'r prif brifysgolion yn y DU sy'n gweithio yn y cynllun. Mae cyfle i fyfyrwyr astudio mewn meysydd cyfoethog ac amrywiol gan gynnwys Bioleg Amgylcheddol, Bioleg Forol a Dŵr Croyw neu Eneteg a Biocemeg yn y sefydliad addysgu ac ymchwil gwyddonol o safon fyd-eang IBERS, neu Wyddor Daear Amgylcheddol er enghraifft, yn y Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear neu hyd yn oed Gwyddor Ofodol a Roboteg yn y Sefydliad Mathemateg a Ffiseg.

Mae Cymru'n chwaraewr allweddol ar y llwyfan addysg uwch byd-eang, ond mae potensial sylweddol am lwyddiant pellach. Rydym ni'n gwybod y **bydd prifysgolion yng Nghymru'n** ymdrechu i ddod yn gyrchfan y bydd y myfyrwyr a'r staff gorau drwy'r byd yn ei ddewis. Mae rhagor o waith i'w wneud gan brifysgolion Cymru i wneud defnydd gwell o rwydweithiau o gyn-fyfyrwyr – yng Nghymru ac ar draws y byd. Dylai pawb, gan gynnwys y Llywodraeth, gyfathrebu am y cwricwla AU cynyddol ryngwladol sydd yng Nghymru, a'u dathlu. Mae prifysgolion yng Nghymru yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd lleoliad gwaith rhyngwladol deniadol i fyfyrwyr cartref (gan gynnwys *Erasmus*<sup>13</sup> ac *Astudio Dramor*<sup>14</sup>). Rhaid i Gymru weithio i ddenu a chadw staff academiaidd blaenllaw o bob rhan o'r byd i helpu i gyfoethogi ein sail ymchwil ac ysgolheictod.

**Mae prifysgolion yng Nghymru'n gweithio** i hyrwyddo partneriaethau rhyngwladol, cynaliadwy, sy'n fuddiol i'r naill ochr a'r llall, boed yn fasnachol neu'n addysgol. Rhaid i Gymru hefyd wella ei phroffil yn yr Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd, i hwyluso cyflenwi rhagor o raglenni gradd ar y cyd, gyda phartneriaid yn Ewrop a thu hwnt.

Drwy sicrhau rhagor o gydweithio gyda cholegau addysg bellach a darparwyr AU sy'n gweithredu dramor, **mae prifysgolion yng Nghymru'n** datblygu eu cysylltiadau rhyngwladol yn nhermau cryfhau cysylltiadau cyfredol a chreu partneriaethau ffres ac arloesol.

**Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio** gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys y Cyngor Prydeinig yng Nghymru, i gynorthwyo'r sectorau AB ac AU yn eu holl weithgareddau rhyngwladol.

<sup>13</sup> Y Cyngor Prydeinig, *Erasmus* [www.britishcouncil.org/erasmus-about-erasmus.htm](http://www.britishcouncil.org/erasmus-about-erasmus.htm)

<sup>14</sup> [www.studyabroad.com](http://www.studyabroad.com)

## Hybu symudedd myfyrwyr

Nid mater o recriwtio myfyrwyr rhyngwladol i astudio yng Nghymru yn unig yw rhyngwladoli. Rhaid cynorthwyo myfyrwyr a staff yng Nghymru hefyd i fod yn symudol yn rhyngwladol – drwy adleoli'n gorfforol i wlad arall, neu gyfranogiad ar-lein cynyddol gyda chymheiriaid rhyngwladol.

Mae corff symudol o staff a myfyrwyr yn dod â buddion i unigolion, cymunedau, prifysgolion, yr economi a Chymru fel cenedl. Gall symudedd myfyrwyr wella cyflogadwyedd a datblygiad personol, cynnig gwell cyfleoedd ar gyfer datblygiad ieithyddol

a chodi ymwybyddiaeth ddiwylliannol uwch a meddylfryd global sy'n hanfodol i Gymru yn nhermau denu busnes rhyngwladol ac annog allforio.

Mae symudedd myfyrwyr yn rhyngwladol yn fuddiol i sefydliadau ac i fyfyrwyr. Mae'r Cyd-Grŵp Llywio ar Symudedd Allanol Myfyrwyr y DU<sup>15</sup> wedi dynodi cyfres o gymhelliannau a buddion. I brifysgolion, mae symudedd myfyrwyr yn cyfrannu at sgoriau ar gynghreiriaid rhyngwladol sydd yn eu tro'n codi proffil rhyngwladol ac enw da ac yn denu staff rhyngwladol. Mae symudedd myfyrwyr yn cefnogi datblygiad portffolios ymchwil neu gyrsiau ar y cyd ac yn cynnig y gallu i greu cysylltiadau â'r darparwyr rhyngwladol gorau. Mae hefyd yn cynorthwyo recriwtio rhyngwladol ac yn cefnogi cyflogadwyedd myfyrwyr. I fyfyrwyr, gall symudedd rhyngwladol wella cyflogadwyedd a datblygiad personol a chynnig cyfleoedd gwell ar gyfer datblygiad ieithyddol. Mae myfyrwyr hefyd yn cael budd o ymwybyddiaeth ddiwylliannol helaethach a meddylfryd mwy global.

Mae'r Cyd-Grŵp Llywio wedi cynnig fframwaith ymarfer gorau i'w ystyried, ar gyfer sefydliadau sy'n dymuno gwella, hybu a chefnogi symudedd myfyrwyr.

**Mae prifysgolion yng Nghymru** yn dangos eu hymrwymiad i symudedd drwy gynnwys arweinyddiaeth weladwy mewn sefydliadau, cyfleu negeseuon allweddol sy'n cael eu gyrru o'r brig, a darparu lefel addas o adnoddau a chyllid. Bydd hybu symudedd a'r seilwaith i hwyluso hynny yn sicrhau'r ymgysylltu gorau bosibl gyda myfyrwyr. **Mae prifysgolion yn gweithio** i sicrhau bod cwricwla yn hyblyg er mwyn caniatáu i fyfyrwyr ymgymryd â chyfnod o symudedd – mae hyn yn cynnwys achredu priodol er mwyn sicrhau y gellir



<sup>15</sup> Recommendations to support UK Outward Student Mobility (Cyd-grŵp Llywio ar Symudedd Allanol Myfyrwyr y DU, Mawrth 2012)

darparu credydau a/neu gydnabod cyfnodau o symudedd. Dylid gwneud y defnydd gorau o'r Adroddiad Cyflawniad Addysg Uwch i sicrhau bod gweithgaredd symudedd yn cael ei gofnodi ac felly ei fod o werth i'r myfyriwr o ran cyflogadwyedd.

Er mwyn sicrhau bod symudedd rhyngwladol i fyfyrwyr yn llwyddo, mae **prifysgolion yng Nghymru yn deall** bod rhaid iddo gael ei integreiddio gyda gweithgareddau eraill, er enghraifft dysgu ac addysgu, ehangu mynediad a chymorth i fyfyrwyr. Rhaid sicrhau nad oes unrhyw rwystrau – gwirioneddol neu ganfyddedig – i symudedd. Gall **prifysgolion yng Nghymru** ei wneud yn haws i fyfyrwyr gyfranogi mewn lleoliadau gwaith diwydiannol, profiad gwaith dramor, cyrsiau iaith dwys, neu brosiectau gwirfoddoli cydnabyddedig, a dod â'u profiadau'n ôl i'w cymdogaethau lle maent yn astudio, gweithio a byw.

**Mae prifysgolion yng Nghymru yn gweithio i** sicrhau bod symudedd myfyrwyr rhyngwladol ar gael i bawb. Ar hyn o bryd, nid yw'r nifer sy'n ymgymryd â'r cynlluniau symudedd allanol, gan gynnwys *Erasmus*, yn gyson ar draws ein prifysgolion. Er enghraifft mae myfyrwyr ehangu mynediad yn dueddol o gael eu tangynrychioli ymhlith myfyrwyr *Erasmus* allanol y DU. Mae angen i SAUau gydnabod a gwneud mwy i gefnogi myfyrwyr o gefndiroedd ehangu mynediad i oresgyn y rhwystrau o ran cyfranogi mewn profiadau dysgu rhyngwladol.



## Ehangu mynediad at addysg uwch

**Neges allweddol:** Dylai addysg uwch fod ar gael i bawb sydd â'r potensial i elwa beth bynnag eu hoed, rhyw, modd a lefel o astudio, gwlad eu tarddiad a'u cefndir. Dylai prifysgolion yng Nghymru geisio dod yn brif ddewis o ran cyrchfan i fyfyrwyr o Gymru, y DU a phob rhan o'r byd.

Mae ehangu mynediad yn ymwneud â chynnig cyfle i bob unigolyn, beth bynnag ei amgylchiadau, gael profiad dysgu ar lefel uwch sy'n briodol, yn berthnasol ac yn werthfawr – ehangu mynediad i bawb sydd â'r potensial i elwa.

Hanes o lwyddiant sydd gan Gymru. Mae menter Cymru gyfan *Ymestyn yn Ehangach* a sefydlwyd yn 2002 wedi helpu i ehangu mynediad at ddysgu a chynorthwyo cynhwysiad cymdeithasol a gwella sgiliau economaidd. Mae holl brifysgolion a cholegau addysg bellach Cymru yn aelodau o bartneriaethau *Ymestyn yn Ehangach* sydd, gyda phartneriaid rhanbarthol gan gynnwys ysgolion, y sector wirfoddol, y Brifysgol Agored yng Nghymru a Gyrfa Cymru, wedi profi'n hynod o lwyddiannus. Ceir llawer o fentrau eraill ar draws Cymru sy'n ategu'r partneriaethau *Ymestyn yn Ehangach*, gan gynnwys *Menter Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd* (UHOVI).

### **Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd yn ennill gwobr prifysgol**

**genedlaethol papur y Guardian:** Enillodd yr Athrofa, sy'n bartneriaeth rhwng Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru Casnewydd, ac a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, y categori 'Ymrwymiad i Ehangu Mynediad' yng ngwobrau 2013 The Guardian. Mae dros 3000 o bobl yn rhanbarth Blaenau'r Cymoedd eisoes wedi cael budd o'r fenter sy'n canolbwyntio ar wella mynediad at addysg uwch drwy gynnig cyrsiau ar lefel prifysgol yn lleol. Mae'r Athrofa'n cynnig cyfleoedd i astudio amrywiaeth o gyrsiau mewn gwahanol feysydd pwnc mewn lleoliadau lleol gan gynnwys colegau addysg bellach. Ceir opsiynau hefyd i fusnesau yn y rhanbarth ymgysylltu â'r Athrofa i gynorthwyo â chynyddu sgiliau eu gweithlu. Mae Gwobrau Prifysgol The Guardian wedi'u cynllunio i gydnabod ymarfer gorau, cyflawniad ac arloesi, gan ddathlu popeth sy'n gwneud prifysgolion y DU yn unigryw a gwych. Mae'r Athrofa wrth ei bodd i gael cydnabyddiaeth i'w gwaith a'r effaith cadarnhaol ar unigolion sy'n byw neu'n gweithio yn y rhanbarth.

Cyflwynwyd cynlluniau ffioedd dysgu yng Nghymru fel modd i hybu cydraddoldeb cyfle o ran mynediad at addysg uwch. Dynodwyd CCAUC yn awdurdod perthnasol ar gyfer asesu a gorfodi cynlluniau ffioedd a hefyd mae iddo swyddogaeth allweddol yn cynnig arweiniad i'r sector ar ymarfer da.

Gan edrych ymlaen, mae angen i fentrau ehangu mynediad:

- adeiladu ar lwyddiannau blaenorol a chynnig darpariaeth gynaliadwy yn y tymor hir, gan gydnabod bod ehangu mynediad yn parhau'n agenda tymor hir
- canolbwyntio ar grwpiau sydd ar hyn o bryd wedi'u tangynrychioli mewn AU
- gweithredu fwy ar sail tystiolaeth ac yn strategol er mwyn cefnogi cyfranogiad a llwyddiant dysgwyr mewn AU

- tanategu darpariaeth â gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn ymwneud ag AU er mwyn hybu addysg uwch, dysgu ar lefel uwch a sgiliau uwch, a phenderfyniadau gwybodus
- gweithredu fel cyfrwng rhwng cymunedau, campysau neu fannau eraill â moddau dysgu i gynorthwyo â dilyniant a llwyddiant
- cefnogi dilyniant at gyfleoedd dysgu rhanbarthol, Cymru a'r DU gyfan
- hybu a chynyddu cyfleoedd dilyniant at gyfleoedd AU cyfrwng Cymraeg
- cydnabod demograffeg newidiol Cymru a'r swyddogaeth y dylai SAUau ei chwarae yn ymateb i anghenion dysgwyr aeddfed ac iau
- cynyddu symudedd cymdeithasol a chyfrannu at drechu tlodi
- sicrhau bod moddau o ddarpariaeth yn cynnwys: cyfrwng Cymraeg; hyblygrwydd; gwaith ymestyn cymunedol a seiliedig ar waith; dysgu mewn cyrsiau byr; priodol i ddysgwyr o bob oed
- cyfrannu at boblogaeth AU sy'n gynyddol amrywiol a chefnogi agendâu cydraddoldeb
- cefnogi AU mewn AB, yn y gweithle ac yn ddigidol
- gwella mynediad teg at y proffesiynau, sgiliau lefel uwch a'r sectorau blaenoriaeth
- ymateb yn gliriach i alwadau dysgwyr a chyflogwyr.

Mae cadw myfyrwyr yr un mor bwysig â recriwtio. Gall ehangu mynediad i'r rheini nad oes ganddynt draddodiad o fywyd prifysgol gyflwyno heriau ychwanegol o ran eu cadw. I lawer o fyfyrwyr, gall symud i ffwrdd o gartref am y tro cyntaf fod yn gysyniad brawychus ac mae prifysgolion wedi mabwysiadu agwedd at gymorth sy'n gosod y myfyriwr yn ganolog, yn enwedig i'r rhai o gefndiroedd annhraddodiadol. Mae prifysgolion yn teilwra cymorth i anghenion unigol ac yn cynnig cymorth bugeiliol a help beth bynnag yr amgylchiadau a chefnidir.

Mae gan addysg uwch y potensial i ysbrydoli a datblygu unigolion o unrhyw oed ac mae'n eu hannog i ddatblygu'n barhaus drwy gydol eu bywydau er mwyn iddynt fod â'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer gwaith a'u bod hefyd yn gallu cyfrannu at eu cymunedau. Mae sefydliadau AU yng Nghymru yn rhedeg rhaglenni gwirfoddol llwyddiannus i helpu i feithrin datblygiad personol.

**Rhaglen Gwirfoddolwyr Myfyrwyr y Brifysgol Agored:** Oherwydd natur model dysgu o bell y Brifysgol Agored (PA), mae ei myfyrwyr wedi'u dosbarthu ar draws Cymru gyfan. I gefnogi myfyrwyr ar ddechrau eu taith ddysgu, sy'n dechrau gydag ymrwymiad i ymgymryd ag addysg uwch, mae'r Brifysgol Agored wedi cyflwyno *Rhaglen Gwirfoddolwyr Myfyrwyr*. Rhoddwyd y rhaglen ar brawf i ddechrau yng ngogledd a chanolbarth Cymru, ac mae wedi recriwtio myfyrwyr cyfredol a rhai cyn-fyfyrwyr i weithredu fel mentoriaid i ddarparu cymorth i'r sawl sydd â diddordeb mewn astudio gyda PA. Mae'r gwirfoddolwyr yn gallu disgrifio heriau a buddiannau addysg uwch rhan amser o bell mewn ffyrdd sy'n helpu'r ymholwyr i wneud penderfyniad gwybodus a rhoi hyder iddynt wrth ymrwymo i astudio. Mae'r gwirfoddolwyr yn derbyn tystysgrif fel cofnod ffurfiol o'u cyfraniad ac maent yn dod at ei gilydd fel rhwydwaith cymorth cymheiriaid, gyda chymorth grŵp Facebook. Mae'r Brifysgol bellach yn bwriadu datblygu'r rhaglen ac estyn ei chwmpas daearyddol.

Mae sefydliadau AU Cymru mewn sefyllfa amlwg nid yn unig i drawsnewid dyfodol y genhedlaeth nesaf ond hefyd i drawsnewid y cymunedau y'u lleolwyd ynddynt. Er mwyn sicrhau y gall Cymru barhau i arwain y ffordd gyda system addysg wirioneddol hygrych, mae angen i sefydliadau fod wedi'u hymwreiddio'n llawn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Er mwyn i SAUau gyfoethogi eu cymunedau lleol ac ymgysylltu â nhw mae angen iddynt fynd â'u dosbarthiadau at y darpar fyfyrwyr. Ceir tystiolaeth glir o effaith profiadau astudio preswyl – ysgolion haf, colegau gaeaf, darpariaeth adolygu dros y Pasg, ac ati – ar breswylwyr lleol y prifysgolion, ond ceir mwy o botensial ar gyfer gwaith ymestyn cymunedol yng Nghymru. **Rhaid i SAUau barhau** i ehangu eu darpariaeth y tu hwnt i'r campysau i ymwreiddio cyfleoedd dysgu mewn cymunedau a gweithleoedd.

**Mae rhai meysydd lle mae cyfleoedd newydd wedi codi yn sgil technoleg newydd. Dylai darparwyr addysg uwch** hybu cyfleoedd AU, gan gynnwys llwybrau dilyniant, moddau dysgu a lleoliadau newydd a gwahanol sydd ar gael. Hefyd dylid sicrhau cydweithio strategol cryfach rhwng darparwyr AU a gwasanaethau gofal yng Nghymru, gan adeiladu ar sianeli cyfathrebu sydd wedi'u sefydlu i archwilio ffyrdd newydd ac arloesol i ddenu myfyrwyr o bob oed a chefnidir at addysg uwch (gan gynnwys gwybodaeth am yr holl lwybrau at addysg uwch).

**Dylai darparwyr addysg uwch** geisio darparu cynnig priodol i bobl ar bob cam o fywyd drwy amrywiaeth o raglenni a thrwy system gyflenwi hyblyg a dynamig sy'n cwrdd â disgwyliadau ac anghenion myfyrwyr. Y nod ddylai fod ehangu mynediad i bawb, gan gynnwys y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig o Gymru, yn hytrach na rhoi mynediad i rai yn unig. Mae angen cyfuniad o ddarpariaeth lawn amser a rhan amser ar Gymru ar lefelau amrywiol, gan gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus, a chanolbwyntio ar ofynion cyflogwyr.

**Byddai'n fuddiol pe bai'r holl ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru** yn rhannu ymarfer da i sicrhau bod pawb yn defnyddio arferion da a rhagorol. Mae angen datblygu sail tystiolaeth o ymarfer effeithiol i gynorthwyo darpariaeth ehangu mynediad.

Mae gweithdrefnau derbyn teg, gydag ymarfer proffesiynol lefel uchel yn sail iddynt ac ymarfer effeithiol yn cyfrannu atynt hefyd yn allweddol i sicrhau cydraddoldeb cyfle mewn AU. Mae **SAUau yng Nghymru'n** gefnogol i sicrhau trefniadau derbyn teg ac yn cael eu hannog i ddefnyddio data cyd-destunol i sicrhau darlun cyflawnach o'r ymgeiswyr. **Maent yn gwybod bod rhaid iddynt** wneud ymdrechion parhaus i ddynodi ymgeiswyr sydd â'r potensial a'r tebygolrwydd mwyaf o sicrhau ganlyniad llwyddiannus. **Maent yn sicrhau** bod gofynion y cwrs yn glir ac yn dryloyw er mwyn i fyfyrwyr allu gwneud dewisiadau gwybodus.

## Cydlynu rhanbarthol – cydgordio addysg ôl-16 yng Nghymru

**Neges allweddol:** Mae angen cael golwg fwy holistig a rhanbarthol o addysg ôl-16 yng Nghymru, gyda chefnogaeth cynllunio ranbarthol cryfach. Anghenion y dysgwyr ddylai fod yn flaenoriaeth. Mae angen cael llawer mwy o gydweithio rhwng darparwyr addysg uwch a phellach i sicrhau bod modd gwireddu dilyniant a hyd yn oed astudio cydamserol yn y ddwy sector.

Mae angen i ni sicrhau ein bod ni'n rhoi'r cyfle gorau i bobl ifanc allu symud ymlaen o ysgolion a Cholegau Addysg Bellach (CAB) i addysg uwch ar draws Cymru, gan gynnwys y rheini o'r cefndiroedd mwyaf difreintiedig. Ceir gwendidau o ran cydlynu rhwng cyfnodau gwahanol o addysg. Mae'r problemau'n cynnwys diffygion yn y cwricwla a'r cyfarwyddyd a gynigir gan ambell chweched dosbarth a CAB; cyngor ac arweiniad gwael; pellter teithio i SAUau; a chanfyddiadau myfyrwyr o gostau AU a chyfleoedd swyddi yn y dyfodol. Mae diffyg cynllunio a chyflenwi cyfleoedd AU yn rhanbarthol a chydlynol yn ffactor sy'n cyfrannu at rai o'r trafferthion hyn. Mae angen gweithredu i wella'r modd y caiff data ei gasglu, ei ddadansoddi a'i rannu i gynorthwyo gyda datblygiadau strategol yn y dyfodol.



**Prosiect Olion:** Mae Prifysgol Fetropolitan Abertawe/Prifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant wedi sefydlu Prosiect Olion, sydd wedi'i anelu at bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETS). Mae hyn wedi galluogi sefydlu prosiectau celf ar draws de Cymru i ysbrydoli a helpu pobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau ac ehangu eu profiad dysgu. Gyda Dinas a Sir Abertawe yn brif bartner mae'r Brifysgol wedi ymuno â sefydliadau celfyddydol, megis Theatr Fforwm Cymru, TAN Dance, YMCA Abertawe ac Oyster Education i ffurfio Prosiect Olion. Mae'n cynnig prosiectau creadigol a gweithdai wedi'u teilwra i bobl ifanc sydd i'w targedu ac yn canolbwyntio ar dechnegau amrywiaeth o theatr, drama, dawn, cerddoriaeth a chelfyddydau gweledol.

Mae prifysgolion dwy sector, fel yr hyn sy'n datblygu yn ne orllewin Cymru, neu ddull 'Coleg Cymunedol' arfaethedig Prifysgol De Cymru a fydd yn ymwreiddio AU yn ffurfiol mewn Canolfannau Prifysgol mewn colegau AB, yn arwain y ffordd gyda chydweithio gwirioneddol. Mae angen ehangu'r dull hwn a'i ddwysau ar draws Cymru, nid gyda strwythurau ffurfiol bob tro ond mewn ffurfiau rhanbarthol o gydweithio ystyrlon. Mae angen sicrhau cydweithio aeddfed dros amser.

Er mwyn ei gwneud yn haws i gael arbenigedd technegol, bydd angen i brifysgolion gyflenwi i fusnesau ar draws ffiniau rhanbarthol a defnyddio'r arbenigedd hwnnw i sbarduno buddsoddiad gan fusnes i mewn i Gymru. Mae angen i sefydliadau addysg uwch fod yn rhagweithiol gyda chwmnïau angor i sicrhau bod anghenion ymchwil a sgiliau ehangach Cymru'n cael eu diwallu.

Yn ogystal â gwella llwybrau mynediad a dilyniant, ymhlith y gweithgareddau penodol a fyddai'n cael budd o fframwaith cynllunio rhanbarthol mwy cydlynol mae trosglwyddo gwybodaeth, darpariaeth cyfrwng Cymraeg, rhannu ymarfer da a gweithredu i ymdrin â bylchau sgiliau lefel uchel a hybu datblygiad busnes.

Hefyd ceir rheidrwydd ariannol sylweddol am gynllunio cydweithredol a datblygu cydlyniad rhanbarthol ehangach. Gan fod y sector AU yng Nghymru yn defnyddio cyllid cyhoeddus sylweddol, rhaid iddi roi'r gwerth gorau bosibl am arian a dangos enillion sylweddol ar y buddsoddiad.

**Rhaid i SAUau yng Nghymru** weithio gyda darparwyr addysg eraill i wella effeithiolrwydd dilyniant dysgwyr ar bob cam. **Dylai SAUau** hefyd weithio gyda'i gilydd i gynllunio cyflenwi ar sail rhanbarthol neu gydweithredol lle bo'n briodol, ond gan gydnabod cenadaethau penodol y gwahanol sefydliadau. Dylid sicrhau agwedd gynaliadwy at gyflenwi AU mewn AB sydd wedi'i gwreiddio'n gadarn mewn cynlluniau strategol rhanbarthol ar gyfer addysg uwch.

**Bydd CCAUC'n parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu gwell cydlyniad rhanbarthol wrth ddarparu addysg uwch yng Nghymru**, ac yn benodol bydd yn ofynnol iddo hybu cydlyniad rhanbarthol wrth ymarfer ei swyddogaethau i ddyrannu cyllid i sefydliadau.

## Profiad myfyriwr amrywiol a nodedig

**Negeseuon allweddol:** *Dysgwyr sydd wrth galon addysg uwch yng Nghymru. Mae Cymru wedi arwain y ffordd gan ddatblygu dulliau newydd o gyllido undebau myfyrrwyr a chynrychiolaeth myfyrrwyr sy'n ddemocrataidd ac effeithiol. Rhaid i ddarparwyr addysg uwch sicrhau bod ymarfer gorau cyfredol yn cael ei rannu rhwng sefydliadau ac yn arwain at bartneriaethau cynaliadwy, parhaus a thymor hir rhwng myfyrrwyr, staff a sefydliadau.*

*Mae technoleg yn symud a rhaid i ddarparwyr addysg uwch symud hefyd. Mae SAUau yng Nghymru'n ymrwymedig i fanteisio'n llawn ar bob cyfle a ddaw yn sgil Adnoddau ac Ymarfer Addysgol Agored ac yn gweithio'n galed i ymwreiddio ymarfer sy'n annog defnyddio ac aildefnyddio'r deunyddiau addysgu a dysgu ac ymchwil o safon fyd-eang sydd ar gael. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r holl ddarparwyr AU i sicrhau bod AU yng Nghymru mewn safle i ffynnu yn sgil yr arloesiadau technolegol sydd erbyn hyn ar gael.*

Mae SAUau yng Nghymru eisoes yn rhannu ymrwymiad cryf i egwyddor partneriaeth a rhyngweithio â myfyrrwyr. Drwy rymuso myfyrrwyr i gyfranogi i gyfoethogi eu profiadau dysgu eu hunain, gall SAUau yng Nghymru ddarparu profiad myfyriwr rhagorol ac unigryw a hefyd y sianelau i greu dialog dilys ac adeiladol â staff. Bydd y cyfuniad hwn o ryngweithio rhwng staff a myfyrrwyr yn caniatáu i brifysgolion Cymru ymateb i newidiadau o ran anghenion a disgwyliadau myfyrrwyr mewn sector addysg sy'n amrywio'n gyflym. Drwy geisio cyfoethogi ffyrdd o ymgynghori a chynnwys myfyrrwyr yn barhaus mewn penderfyniadau am eu dysgu, gall SAUau yng Nghymru eu gosod eu hunain ar y blaen o ran partneriaeth â myfyrrwyr.

Drwy ddefnyddio *Menter Ymgysylltu Myfyrrwyr Cymru*, dull sy'n ennyn myfyrrwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol wrth arwain, rheoli, datblygu a chyflenwi eu profiad addysgol eu hunain, fel sail, gall SAUau yrru arloesi a sicrhau bod ymarfer da yn cael ei fabwysiadu'n eang wrth ymgysylltu â myfyrrwyr. Yng Nghymru hefyd, mae Siarteri Myfyrrwyr a chytundebau perthynas wedi'u cyflwyno mewn prifysgolion sy'n ffurfioli'r berthynas rhwng myfyrrwyr a sefydliadau.

Mae datblygu Setiau Gwybodaeth Allweddol yn rhan o waith CCAUC a'r sector i wella'r wybodaeth sydd ar gael am addysg uwch. Cyhoeddwyd y Setiau am y tro cyntaf yn ystod hydref 2012, gan alluogi darpar fyfyrwyr i gael gwybodaeth fydd yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am beth a ble i astudio. Maent yn cynnwys gwybodaeth y mae darpar fyfyrwyr wedi'i dynodi'n ddefnyddiol, megis boddhad myfyrrwyr, deilliannau graddedigion, gweithgareddau dysgu ac addysgu, ffioedd dysgu a chyllid myfyrrwyr, llety ac achredu proffesiynol. Dyma'r tro cyntaf i'r math hwn o ddata gael ei dynnu ynghyd yn y modd hwn, gan ddarparu gwybodaeth i fyfyrwyr mewn fformat sy'n ddefnyddiol iddyn nhw.

**Rhaid i SAUau yng Nghymru** barhau i archwilio'n weithredol ffyrdd newydd o ryngweithio gyda dysgwyr, beth bynnag eu modd astudio neu amgylchiadau personol. Er mwyn sicrhau eu bod yn gyrchfannau o ddewis sy'n denu'r myfyrrwyr gorau a'r staff gorau o gartref a thramor, **rhaid i SAUau** gyfleu'r profiad myfyriwr cadarnhaol a'r dysgu ac addysgu rhagorol y gall myfyrrwyr eu disgwyl wrth astudio mewn prifysgol yng Nghymru.

## O ymgysylltu i bartneriaeth lawn

Mae partneriaeth yn ymwneud â llawer mwy na gwranddo ar lais y myfyrwyr yn unig a galluogi myfyrwyr i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae gwir bartneriaeth yn dibynnu ar amgylchedd lle mae blaenoriaethau, cynnwys a chyfeiriad y profiad dysgu oll wedi'u gosod gan fyfyrwyr a staff mewn partneriaeth.

Mae swyddogaeth allweddol i undebau myfyrwyr cryf helpu i sicrhau partneriaethau effeithiol. Er mwyn i bartneriaeth lwyddo mae angen i'r berthynas rhwng myfyrwyr, mudiad y myfyrwyr a'r sefydliad ddatblygu mewn ffyrdd newydd.

**Dylai SAUau yng Nghymru** weithio mewn partneriaeth gydag undebau myfyrwyr i gefnogi a hwyluso ymgysylltiad yr holl fyfyrwyr.

## Dysgu wedi'i gyfoethogi â thechnoleg

Mae technolegau newydd yn newid y modd y mae myfyrwyr yn cyrraedd at addysg uwch ac yn rhyngweithio â'u haddysg. Dros y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd newid cyflym mewn agweddau at gyflenwi addysg uwch ar-lein. Ceir cydnabyddiaeth gynyddol y gall cyrsiau ar-lein fod o'r safon uchaf. Mae arferion cymdeithasol newidiol yn goddiweddyd amheuaeth ynglŷn ag a oes modd cyflenwi cyrsiau ar-lein a phryderon am ddiffyg rhyngweithio. Erbyn hyn nid yw trafod a rhannu syniadau ac adnoddau ar-lein yn naid i'r dychymyg ac mae llawer o sylwebwyr y cyfryngau'n awgrymu bod y bwch rhwng bywyd ar-lein a bywyd real yn gynyddol amwys.

Mae adnoddau addysgol agored yn canolbwyntio'n bennaf ar argaeledd adnoddau a deunyddiau. Mae ymarfer dysgu agored yn creu'r amgylchedd lle caiff yr adnoddau addysgol agored eu creu neu eu defnyddio a hefyd mae'n ehangu arferion adnoddau addysgol agored at agweddau eraill o'r profiad dysgu megis mynediad agored at ymchwil. Mae natur ymarfer dysgu agored yn cynnig cyfle i ddarparu'r addysg uwch, a'r sawl sy'n



cyflenwi addysg i bob oed ac ar bob lefel, ymchwilio sut y gall myfyrwyr a darlithwyr chwarae rhan weithredol wrth ddatblygu adnoddau. Gall adnoddau addysgol agored gyfoethogi profiad y myfyriwr drwy ddarparu pont rhwng dysgu anffurfiol a ffurfiol fel rhan o'r agenda dysgu gydol oes, gan gynnig cyfle i fyfyrwyr symud i mewn ac allan o ddysgu ffurfiol drwy gydol eu bywydau a'u gyrfaedd.

Un maes sydd wedi ennill momentwm a sylw sylweddol yw MOOCau (Massive Open Online Courses). Cyrsiau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer cyfranogiad ar raddfa uchel a mynediad agored drwy'r we yw MOOCau. Yn nodweddiadol nid yw MOOCau yn cynnig credydau ond ceir symudiad at ardystio ac asesu ac mae hwn yn faes y dylai darparwyr addysg uwch yng Nghymru edrych arno ymhellach.

Mae mentrau cyrsiau ar-lein wedi'u lansio gan rai o'r brandiau academiaidd byd-eang uchaf eu bri megis Stanford, MIT a Harvard. Mae Udacity a Coursera (sy'n cynnwys Prifysgol Caeredin) o bosibl yn ddechrau brid newydd o ddarparwyr addysg uwch ar-lein dielw. Mae Ymddiriedolaeth Bill a Melinda Gates bellach yn cyllido model achredu posibl ar gyfer MOOCau. Mae'r mentrau newydd hyn wedi dechrau denu buddsoddiad cyfalaf mentro difrifol. Mae'r duedd hon felly yn debygol o gynyddu.

'Fel Is-Ganghellor rwyf i'n credu bod potensial gan fynediad agored at ddeunyddiau dysgu ac addysgu i fod o fudd i'r dysgwr ac i'r gymuned y mae'r dysgwr yn gweithredu ynddi. Mae fy nghyd Is-Gangellorion a fi yn credu bod rhannu gwybodaeth ac adnoddau yn allweddol ar gyfer darparu'r sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i fyfyrwyr ddod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu cymunedau, eu gwledydd a chymdeithas yn fyd-eang. Rydym ni'n credu bod gennym ni gyfrifoldeb i'r genhedlaeth nesaf o ysgolheigion, boed yn ein prifysgolion ni neu du hwnt, oherwydd nhw yw arloeswyr yfory. Rydym ni hefyd yn credu bod cynyddu mynediad at addysg uwch, beth bynnag yw'r sefyllfa economaidd, ddaearyddol neu amgylcheddol a wynebwr gan fyfyrwyr, yn gyfrifoldeb y dylem ni ei gofleidio. Bydd ymwreiddio ymarfer addysgol agored ar draws cymuned addysg uwch Cymru yn hwyluso gwell profiad addysgol o safon i fyfyrwyr drwy Adnoddau Addysgol Agored.'

**Yr Athro John Hughes, Cadeirydd Addysg Uwch Cymru, ac Is-Ganghellor Prifysgol Bangor**

Gall cwmpas ac ansawdd y fath ymyriadau aflonyddgar fod â goblygiadau dwys i gyflenwi addysg uwch yng Nghymru. Mae newid eisoes ar y gweill – mae'r Brifysgol Agored wedi cyhoeddi y bydd Futurelearn yn cael ei lansio, gyda phartneriaid yn cynnwys Prifysgol Caerdydd, i gynhyrchu llwyfan wedi'i seilio yn y DU ar gyfer MOOCau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gweithgor arbenigol, dan gadeiryddiaeth cyn Lyfrgellydd Cenedlaethol Cymru a gydag aelodau o bob rhan o'r sector AU, i archwilio'r potensial ar gyfer dysgu digidol ar-lein a sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi'r sector addysg uwch yn y maes cynyddol hwn. Yr amcan a rannwn yw sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i barhau i ffynnu yn wyneb y cyfryw ddatblygiadau.



Bydd y gweithgor yn adrodd ar:

- y bygythiad cystadleuol posibl i'r sector addysg uwch yng Nghymru sy'n deillio o ddatblygiadau byd-eang yn seiliedig ar dechnoleg
- y cyfleoedd posibl a gynigir gan ddatblygiadau technolegol i'r sector addysg uwch yng Nghymru mewn cyfnod o wariant cyhoeddus cyfyngedig
- i ba raddau mae sector addysg uwch Cymru'n gweithio ar y cyd i sicrhau darbodion maint i wneud y defnydd gorau o'r cyfleoedd a geir
- y graddau y gallai datblygiadau technolegol gynnig llwyfan i gynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch lawn amser a rhan amser, unwaith eto mewn cyfnod o wariant cyhoeddus cyfyngedig.

**Mae angen i SAUau yng Nghymru** gydio yn yr her a'r potensial a geir yn sgil dysgu ar-lein gan archwilio cyfleoedd adnoddau addysgol agored. Mae cyfle'n bodoli i greu amgylcheddau cymdeithasol a dysgu newydd a fydd yn helpu i hybu cyfiawnder cymdeithasol, gyda deunydd a gynhrychir gan brifysgolion Cymru wrth galon yr ymdrechion hyn.

Gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a gyda'i chefnogaeth, **mae angen i SAUau** wthio ymlaen gyda'r dyhead i gynhrychu ymateb 'un genedl' i ddysgu a gyfoethogir gan dechnoleg a fydd yn gweld Cymru'n cymryd lle blaenllaw ar lwyfan y byd ac yn cynnig profiad nodedig iawn i fyfyrwyr addysg uwch. Dylai'r ffocws fod ar sicrhau bod cynnwys o safon uchel ar gael – cynnwys y cyrsiau a chyfoethogi profiad y myfyriwr ddylai fod yn yrwyr allweddol, nid y dechnoleg.

## Cyfoethogi ansawdd

**Neges allweddol:** Mae craffu dangosadwy, cadarn, ag iddo hygrededd cyhoeddus, annibynnol a thrylwyr ym maes addysg uwch, sy'n cynnig sicrwydd a hyder o ran ansawdd yn hanfodol. Mae angen i sefydliadau AU anelu y tu hwnt i gynnal safonau academiaidd a chanolbwyntio ar wella i sicrhau bod myfyrwyr yn cael profiad dysgu o'r ansawdd uchaf. Mae angen golwg 'system gyfan' ac mae angen datblygu mesurau fydd yn darparu asesiad cynhwysfawr o ansawdd addysg uwch yng Nghymru yn ei holl ddimensiynau gwahanol.

Mae sicrwydd ansawdd a chyfoethogi yn hanfodol ar gyfer llwyddiant addysg uwch yng Nghymru yn y dyfodol. Roedd yr ymateb i Bapur Gwyn Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru)<sup>16</sup> a gyhoeddwyd yn 2012 yn dangos yn glir bod ymrwymiad cryf i gyfoethogi ansawdd addysg uwch yng Nghymru eisoes yn bodoli, gyda llawer o weithgareddau a threfniadau cyfoethogi wedi'u sefydlu ac yn weithredol.

**Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth** i sicrhau bod gan CCAUC bwerau a dyletswyddau priodol mewn perthynas â sicrhau ansawdd a rheoleiddio'r sector AU sy'n rhoi ystyriaeth i'r trefniadau cyllido newydd ar gyfer darpariaeth addysg uwch.

Bydd CCAUC yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod systemau sicrhau ansawdd a chyfoethogi yng Nghymru'n gadarn, yn heriol ac yn canolbwyntio ar welliant parhaus. Rhaid i fyfyrwyr a staff fod wrth galon y broses.

**Dylai prifysgolion yng Nghymru** barhau i adeiladu ar weithgareddau cyfoethogi sydd wedi'u sefydlu a defnyddio'r momentwm sydd wedi'i adeiladu i wella profiad dysgu a deilliannau myfyrwyr ymhellach.



<sup>16</sup> [www.wales.gov.uk/consultations/education/feandhebill/?lang=cy](http://www.wales.gov.uk/consultations/education/feandhebill/?lang=cy)

**Yr Academi Addysg Uwch (AAU):** Mae'r AAU wedi bod yn cyfoethogi ansawdd yng Nghymru drwy Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru, gan weithio'n agos gyda SAUau, myfyrwyr ac asiantaethau'r sector. Datblygwyd thema cyfoethogi 'Graddedigion ar gyfer ein Dyfodol' i gynorthwyo'r sector i fynd i'r afael â blaenoriaethau deublyg Llywodraeth Cymru sef cyflenwi cyfiawnder cymdeithasol a chefnogi economi fywiog. Ceir tair ffrwd: Myfyrwyr fel Partneriaid; Dysgu mewn Cyflogaeth; a Dysgu ar gyfer Cyflogaeth, a ddathlwyd ac a ddangoswyd yng nghynhadledd gyntaf Cyfeiriadau'r Dyfodol yn ystod gwanwyn 2012.

Mae rhaglen *Cyfeiriadau'r Dyfodol* hefyd wedi cael ei chyflenwi drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau sector gan gynnwys 'Cyfeiriadau'r Dyfodol: Bwydo Ymlaen, Gwella Dysgu ac Addysgu trwy Ddefnyddio Technoleg' ym mis Ebrill 2011, a 'Cyfeiriadau'r Dyfodol: Graddau Sylfaen – lle mae polisi'n cwrdd ag ymarfer' ym mis Chwefror 2012. Mae holl SAUau Cymru, yr undebau myfyrwyr ac asiantaethau allweddol yn y sector yn cymryd rhan yn y gwaith, mewn amrywiaeth o ffyrdd, er enghraifft drwy aelodaeth o Grŵp Llywio Cyfeiriadau'r Dyfodol, aelodaeth o'r tri grŵp ffrwd gwaith, cyflwyno astudiaethau achos, dosbarthu'r gwaith drwy rwydweithiau a chyfranogi yn nigwyddiadau *Cyfeiriadau'r Dyfodol*.



Mae bod yn rhan o system sicrhau ansawdd ar draws y DU yn fuddiol i brifysgolion yng Nghymru ac mae cael system y gellir ei chymharu ar draws y DU yn atgyfnerthu sefyllfa Cymru'n rhyngwladol. **Dylai prifysgolion yng Nghymru** archwilio ffyrdd newydd i adeiladu ar y proffil hwn ar draws y DU er budd staff a myfyrwyr.

Yn ogystal â rhagoriaeth ar lefel pob sefydliad, dylai Cymru anelu at sicrhau **system** addysg uwch sy'n arddangos rhagoriaeth ar bob lefel. Mae angen i ni fabwysiadu dull system gyfan a mesur nid yn unig ansawdd ymchwil neu addysgu o fewn ein sefydliadau ond hefyd:

- pa mor dda mae darparwyr AU yng Nghymru'n gweithio gyda busnesau a chyflogwyr i gyfoethogi sgiliau a chyflogadwyedd
- pa mor effeithiol mae rhannau cyfansoddol y system AU yng Nghymru'n gweithio gyda'i gilydd i lyfnhau llwybrau a dilyniant i ddysgwyr a sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer cyllid cyhoeddus a fuddsoddir mewn AU
- sut gyda'i gilydd mae'r system AU yng Nghymru'n cyfrannu at nodau rhanbarthol a chenedlaethol
- pa effaith mae'r sector AU yng Nghymru'n ei gael ar y llwyfan rhyngwladol.

Gan weithio gyda CCAUC, darparwyr AU yng Nghymru a phartneriaid allweddol eraill, bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio datblygu set gadarn a chynhwysfawr o feincnodau a mesurau y gellir eu defnyddio i asesu ansawdd ac effaith addysg uwch Cymru ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

## Ymchwil: adeiladu system o safon fyd-eang

**Neges allweddol:** Ym maes ymchwil, mae gan Gymru dimau ymchwil o ansawdd byd-eang. Rhaid i ni ddathlu eu henw da a rhoi cyhoeddusrwydd i lwyddiannau i ddangos Cymru fel gwlad fach sydd ag effaith ymchwil sy'n tyfu, a chodi proffil rhyngwladol Prifysgolion yng Nghymru. Ond mae angen ymdrech ac ymrwymiad gan ragor o'n hacademyddion i gadarnhau a chynnal enw da'r sector am ragoriaeth ymchwil drwy ennill cyfran fwy fyth o'r cyllid a ddyfernir yn gystadleuol.

Mae Prifysgolion yng Nghymru yn rhan o sail gwyddoniaeth yn y DU sy'n arwain y byd, yn ail yn unig i UDA o ran ei chyfran o ddyfyniadau byd-eang. Dros y 10 mlynedd diwethaf, mae ansawdd cyffredinol yr ymchwil, y cyllid ymchwil a sicrhawyd a safle rhyngwladol ymchwil yng Nghymru oll wedi gwella'n sylweddol. Etholwyd rhagor o academyddion o Gymru i Gymdeithasau Dysgedig clodfawr yn y DU, megis y Gymdeithas Frenhinol, yr Academi Peirianeg Frenhinol, Academi'r Gwyddorau Meddygol, yr Academi Brydeinig a'r Academi Gwyddorau Cymdeithasol. Mae effaith ymchwil prifysgolion Cymru, a fesurir gan y nifer o ddyfyniadau fesul papur, wedi tyfu dros y degawd diwethaf ar gyfradd a oddiweddodd cyfartaledd y DU yn y cyfnod 2006–2010. Yn Ymarfer Asesu Ymchwil (RAE) 2008 gosodwyd 49 y cant o ymchwil Cymru yn y ddau gategori ansawdd uchaf, sef 4\*a a 3\*. Yn rhyngwladol, mae effaith ymchwil Cymru ar hyn o bryd, a fernir yn ôl dyfyniadau fesul papur, yn uwch na chyfartaledd y byd, y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a'r UE.

Felly mae ein sail ymchwil prifysgol yn ased cenedlaethol rhagorol, ac yn un sy'n hanfodol i ddyfodol Cymru. O'i chymharu â'r DU yn gyffredinol serch hynny, mae Cymru'n cyflawni llai na'i chyfran o ran poblogaeth o gyllid ymchwil a ddyfernir yn gystadleuol. Rhaid i'n prifysgolion felly fod yn uchelgeisiol wrth sicrhau cyllid cystadleuol ar gyfer ymchwil dyfeisgar a heriol, gan adeiladu ar enghreifftiau da o lwyddiant.

Yn gynyddol mae hyn yn gofyn am gydweithio rhagweithiol gyda'r gorau mewn unrhyw faes penodol, lle bynnag y bo yn y byd. **Rhaid i dimau academiaidd ymgysylltu'n llawn â phrosesau cyllid ymchwil sy'n gynyddol gystadleuol. Dylent fanteisio ar ein cryfderau a gweithio ar draws sefydliadau i sicrhau cyfran uwch o lai o alwadau ymchwil mwy o faint gan y Cynghorau Ymchwil sy'n gwario'n uwch a chyllid o raglen ymchwil cydweithredol rhyngwladol Ewrop Horizon 2020.** Mae prosiectau ymchwil cydweithredol effeithiol a sefydlwyd dros y blynyddoedd diwethaf megis y Sefydliad Ymchwil Carbon Isel a Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru hefyd yn galonogol.

**Rhaid i brifysgolion yng Nghymru hefyd fod yn fwy rhagweithiol wrth annog eu cydweithwyr i gyfranogi ar fyrddau a phwyllgorau Cynghorau Ymchwil.**



Mynegodd *Gwyddoniaeth i Gymru*, strategaeth gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru, y pwyntiau hyn a chyhoeddodd ein buddsoddiad o £50 miliwn yn *Sêr Cymru*, rhaglen gydweithredol gyda'n Prifysgolion ymchwil i ddenu cadeiriau gwyddonol â rhagoriaeth ryngwladol i Gymru, sefydlu Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol newydd a recriwtio cyfarwyddwyr uchel eu proffil i'w harwain. Hefyd cyhoeddodd *Gwyddoniaeth i Gymru* ymrwymiad newydd i weithio'n gydweithredol gyda'r sector AU i wella perfformiad ymchwil yn gyffredinol, gyda strwythurau i gefnogi hyn. Mae gweithredu'n cynnwys rheoli gwell a mwy strategol o ran dylanwadu, cynnig ac ymgysylltu â Chynghorau Ymchwil, y Bwrdd Strategaeth Technoleg, yr UE a chyllidwyr ymchwil eraill ar bob lefel.

Bydd y mentrau hyn yn helpu Cymru i gystadlu a chydweithio gyda'r mwyaf a'r gorau ym maes gwyddoniaeth yn y DU gan adeiladu sail ymchwil fwy cynaliadwy a llwyddiannus yn ein meysydd cryfach, a ddenu rhagor o gyllid cystadleuol o'r tu hwnt i Gymru. Mae cryfderau'n cynnwys ymchwil gwyddorau bywyd yng Nghaerdydd, y Sefydliad Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) arobryn ym Mhrifysgol Aberystwyth, gwaith nodedig Prifysgol Bangor mewn meysydd diogelu amgylcheddol, optoelectroneg ym Mhrifysgol Glyndŵr a datblygiadau arloesol Prifysgol Abertawe mewn ymchwil a phrofi deunyddiau ymhlith eraill. Mae'r cyfleusterau a'r cyfarpar, megis y Ganolfan Genedlaethol Ffenomeg Planhigion ym Mhrifysgol Aberystwyth, a Chanolfan Delweddu Ymchwil yr Ymennydd Prifysgol Caerdydd, gyda'r gorau yn unrhyw le.

**Y Sefydliad Ymchwil i Niwrowyddoniaeth ac Iechyd Meddwl:** Bydd y Sefydliad Ymchwil i Niwrowyddoniaeth ac Iechyd Meddwl yn sefydlu Prifysgol Caerdydd yn arweinydd rhyngwladol ym maes ymchwil i niwrowyddoniaeth ac iechyd meddwl gan chwilio am atebion i'r prif anhwylderau meddyliol sy'n gosod rhai o'r heriau mwyaf i gymdeithas. Bydd y Sefydliad Ymchwil yn canolbwyntio ar gymorth gydol oes o blentyndod i henaint. Mae cyswllt agos â Chanolfan Geneteg a Genomeg Niwroseiciatrig y Cyngor Ymchwil Meddygol, sy'n ganolfan ragoriaeth ag iddi adnoddau rhagorol sy'n ceisio deall achosion sylfaenol salwch meddwl. Mae pwyslais ymchwil y Ganolfan yn cynnwys anhwylderau seiciatrig difrifol megis sgitsoffrenia, anhwylder deubegwn, iselder ac ADHD, yn ogystal â chlefydau niwro-ddirywiol megis Alzheimer a Parkinson. Yn fwyaf diweddar, mae'r Ganolfan wedi sicrhau Gwobr Strategol Ymddiriedolaeth Wellcome ar gyfer prosiect pum mlynedd yn ymchwilio i'r ffactorau risg genetig mewn anhwylderau meddyliol.

Roedd gan Gymru 20 o unedau asesu yn yr RAE diwethaf y dyfarnwyd eu bod yn 'arwain y byd' ac yn 'rhagorol yn rhyngwladol', gan berfformio'n well na chyfartaledd y DU. Roedd y mwyaf yn y gwyddorau cymdeithasol, y celfyddydau a'r dyniaethau. Gall ecsbloetio gwyddorau cymdeithasol a bywyd helpu i wella ansawdd bywyd a chyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru.

Yn ogystal, mae masnacheiddio ymchwil nid yn unig o faes ymchwil y gwyddorau naturiol ond hefyd o'r disgyblaethau creadigol ar gyfer cyfryngau gwahanol yn dod â manteision diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd, gan gynnwys swyddi o ansawdd uchel yng Nghymru, yn ogystal â phroffil rhyngwladol gweladwy iawn i Gymru. Mae ymchwil ac arloesi wrth galon twf ac adferiad economaidd a rhaid i Gymru gydio yn y cyfle i sicrhau gwell buddiannau economaidd a chymdeithasol a ddaw gyda dull mwy cydlynol gan ddefnyddio Cronfeydd Strwythurol a *Horizon 2020* i gysylltu buddsoddi mewn swyddi a seilwaith â buddsoddi mewn ymchwil ac arloesi.

Mewn byd sy'n gynyddol gystadleuol, mae *Sêr Cymru* yn dymuno recriwtio timau disglair ac ymwreiddio rhwydweithiau effeithiol. Mae angen i systemau cynaliadwy sy'n denu a chyllido graddedigion i weithio yn y rhwydweithiau hyn ac mewn adrannau eraill, gan greu gyrfaoedd ymchwil yng Nghymru, fod yn rhan o unrhyw strategaeth ymchwil holistig.

Mae Llywodraeth Cymru a'r sector AU **yn rhannu gweledigaeth ymchwil Gwyddoniaeth i Gymru**: ehangu ymchwil rhagorol mewn AU drwy gryfhau ansawdd a maint y sail ymchwil, er mwyn cyflawni nodau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol er budd Cymru.

# Addysg cyfrwng Cymraeg

**Neges allweddol:** Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Mae rhan allweddol gan ddarparwyr addysg uwch i'w chwarae i wireddu'r weledigaeth honno. Drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi datblygiad addysg uwch cyfrwng Cymraeg a Chymru ddwyieithog hyderus.

Amcan iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–17 yw gweld cynnydd yn y nifer o bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith. Ein nod yw gweld:

- cynnydd yn y nifer o bobl sy'n siarad ac yn defnyddio'r iaith
- rhagor o gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- cynnydd yn hyder a rhuglder pobl yn yr iaith
- cynnydd yn ymwybyddiaeth pobl o werth y Gymraeg, fel rhan o'n hetifeddiaeth genedlaethol ac fel sgil ddefnyddiol ar gyfer bywyd modern
- cryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn ein cymunedau
- cynrychiolaeth gref i'r Gymraeg drwy'r cyfryngau digidol.

Mae *Strategaeth y Gymraeg* wedi'i threfnu i ddarparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg, boed wedi'u dysgu yn y cartref neu drwy'r system addysg, ym mhob agwedd o fywyd bob dydd.

Lansiwyd *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2010, ac mae'n amlinellu'r rôl hanfodol sydd i'r system addysg a sut rydym ni'n bwriadu cryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Un o'r amcanion yw sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn datblygu eu sgiliau iaith Gymraeg i'w llawn botensial ac annog dilyniant ieithyddol cryf o un cyfnod o addysg a hyfforddiant at y nesaf. Yn ogystal, mae'r strategaeth yn amcanu i sicrhau cynllunio ar gyfer gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg i ddarparu nifer digonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod o addysg a hyfforddiant, gyda sgiliau iaith Gymraeg o ansawdd uchel a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu. Dywed Amcan Strategol 2.6 mai'r amcan yw:

Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth rhwng y sector addysg uwch (gan gynnwys y Coleg Ffederal arfaethedig) a'r sector ôl-16 ar lwybrau dilyniant effeithiol i'r dysgwyr o'r ddarpariaeth ôl-16 i addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

Mae *Rhaglen Weithredu'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* yn cynnwys ymrwymiadau y bydd y Sector Addysg Uwch yn cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i wneud y canlynol:

- gweithio gyda darparwyr ôl-16 i gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg y dyfodol gyda llwybrau dilyniant effeithiol o ddarpariaeth ôl-16
- gweithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr i flaenoriaethu llwybrau dilyniant
- hyrwyddo ymchwil AU drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi statws y Gymraeg fel iaith academiaidd
- ystyried camau priodol i gynyddu'r niferoedd sy'n astudio Cymraeg ar lefel gradd
- gweithio gyda CCAUC i ymateb i'r Cynllun Newid Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn seiliedig ar ailfodelu'r gweithlu



- parhau i gefnogi'r *Cynllun Ysgoloriaethau Ôl-raddedig AU* a'r *Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu Cyfrwng Cymraeg* neu gynlluniau olynol
- ystyried opsiynau ar gyfer ymchwil ac ysgolheictod ar fethodolegau addysgu cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg mewn addysg, a dynodi dulliau o gyllido.

Bu sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011 yn gam pwysig yn natblygiad parhaus addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Mae'r Coleg wedi gwneud cynnydd sylweddol ers iddo gael ei sefydlu. Ym mis Medi 2012, lansiodd y Coleg ei Gynllun Academaidd cyntaf sy'n cynnig ffocws dros y tair blynedd nesaf i'r Coleg a sefydliadau addysg uwch yng Nghymru wneud cyfraniad sylweddol iawn i'r nod a osodwyd gan Lywodraeth Cymru o greu Cymru ddwyieithog hyderus.

Yn sylfaen i'r Cynllun Academaidd ceir cynlluniau pwnc-benodol wedi'u drafftio gan y gymuned academaidd a'u cymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd. Mae'r cynlluniau'n adlewyrchu'r ddarpariaeth a niferoedd myfyrwyr cyfredol, ynghyd â chyfleoedd i gydweithio a chysylltiadau â chyflogwyr.

**Cyfoethogi dysgu drwy dechnoleg:** Mae'r Coleg wedi buddsoddi mewn amrywiaeth o lwyfannau ar gyfer cyfoethogi dysgu drwy dechnoleg, a hwyluso cyflenwi adnoddau cyfrwng Cymraeg a darparu modiwlau prifysgol i fyfyrwyr mewn prifysgolion ar draws Cymru. Y prif lwyfan ar gyfer cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg yw 'Y Porth' ([www.porth.ac.uk](http://www.porth.ac.uk)), system e-ddysgu genedlaethol y Coleg sy'n seiliedig ar Blackboard Learn. Mae'r llwyfan, sydd â thros 2000 o ddefnyddwyr cofrestredig, yn cynnal cannoedd o fodiwlau prifysgol a ddatblygwyd gan ddarlithwyr a gyllidir drwy *Gynllun Staffio Academaidd* y Coleg yn ogystal â nifer o adnoddau electronig mynediad agored. Caiff darpariaeth cyfrwng Cymraeg hefyd ei chyflenwi ar gampysau'n genedlaethol gan ddefnyddio rhwydwaith y Coleg o 'ofodau dysgu' mewn chwech o ganghennau'r Coleg. Mae'r gofodau dysgu'n cynnwys cyfarpar fideo-gynadleda HD a chyfrifiaduron PC o safon y diwydiant ar gyfer arddangos cynnwys y Porth, ac yn caniatáu cyfranogiad ar draws lleoliadau gwasgaredig yn ddaearyddol er mwyn sicrhau profiad myfyriwr gwirioneddol gydweithredol.

Mae'r Coleg hefyd yn lletya nifer o adnoddau agored allweddol, gan gynnwys deunyddiau astudio ar gyfer ei Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg newydd, ar ei safle Apple iTunes U (a lansiwyd ym mis Medi 2012) a chyhoeddiadau e-lyfrau sydd ar gael yn rhwydd yn yr Apple iBookstore. Yn 2013, bydd 'Y Porth' yn cael ei ehangu ymhellach i gynnwys llyfrgell amlgyfrwng ar-lein, fydd yn caniatáu i gyhoeddiadau wedi'u digido a chynnwys fideo a sain gael eu hymwreiddio'n hawdd mewn adnoddau a modiwlau, gan gyfoethogi'r profiad dysgu ymhellach drwy ganiatáu i fyfyrwyr a staff lanlwytho cynnwys yn uniongyrchol o ddyfeisiadau symudol a thabled.

Lansiwyd prospectws y Coleg ym mis Mai 2013 ac mae'n cynnwys manylion am yr ystod o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ar draws y sector AU. **Mae angen creu cysylltiadau agosach nawr** gydag ysgolion a'r sector AB er mwyn uchafu dilyniant at addysg uwch a rhoi sylfaen i'r *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*.

## Modelau cyflenwi newydd

**Neges allweddol:** Mae'r cyd-destun y mae darparwyr addysg uwch yng Nghymru'n gweithio ynddo yn newid yn gyflym. Mae newidiadau sylfaenol i'r modd y caiff addysg uwch yn y DU ei chyllido, ynghyd ag arloesi technolegol a disgwyliadau uwch gan fyfyrwyr, yn her i fodelau cyflenwi traddodiadol. Mae'r gwahaniaeth rhwng y gwahanol foddau o gyflwyno yn dod yn fwy aneglur o safbwynt y dysgwyr gyda llawer o fyfyrwyr hefyd yn gweithio'n llawn amser neu ran amser ynghyd ag ymrwymadau gofalu llawn neu ran amser. Gall y sector AU yng Nghymru ymateb drwy ddatblygu modelau mwy hyblyg o ddarpariaeth lawn a rhan amser er mwyn adeiladu dyfodol mwy llwyddiannus a hyblyg.

Mae nifer o heriau sylfaenol yn wynebu'r system addysg uwch ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain:

- y gyntaf yw her ariannol yr hen fodel o AU, lle'r oedd pob unigolyn cymwys 18 oed yn draddodiadol yn gallu ymgymryd â thair blynedd o astudio llawn amser i ffwrdd o gartref gydag ansawdd profiad y myfyriwr bellach yn fwy canolog nag erioed
- yr ail yw'r her drawsnewidiol drwy sicrhau bod y cynnwys gorau gan yr athrawon gorau ar gael yn ddigidol yn fyd-eang
- y drydedd yw democrateiddio AU a'r awch am ddysgu'n rhyngwladol, sy'n her ac yn gyfle
- a'r bedwaredd yw her atebolrwydd cyhoeddus am arian cyhoeddus a chwistrellir i'r system, a fydd mewn hinsawdd o brinder economaidd yn miniogi, waeth pa mor fawr yw'r gyfran o incwm AU a ddaw o ffioedd, ac a fydd yn arwain at lywodraethu cenedlaethol cryfach a gofyniad am lywodraethu sefydliadol gwell a mwy strategol.

Roedd adroddiad diweddar Syr Michael Barber, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus, ar ddyfodol addysg uwch ar draws y byd, yn sôn bod newid enfawr ar y gweill i brifysgolion y DU. Yn ôl Barber, mae prifysgolion traddodiadol yn cael eu dadelfennu ac mae'n bosibl y bydd angen i rai arbenigo mwy mewn addysgu'n unig.

Ni chaiff prifysgolion Cymru eu hynysu rhag yr heriau hyn ac mae angen iddynt gynllunio nawr am ddyfodol mwy anrhagweladwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CCAUC a chyda prifysgolion yng Nghymru i archwilio modelau newydd posibl ar gyfer cyflenwi addysg uwch yng Nghymru. Efallai y bydd angen arloesi radical a bydd angen i ni fod yn feiddgar yn y ffordd y byddwn yn meddwl. Gallai opsiynau posibl gynnwys:

- y symudiad at brifysgolion mwy arbenigol fel y mae Barber yn ei ddisgrifio, gyda nifer llai o sefydliadau ymchwil-ddwys yng Nghymru gydag eraill yn canolbwyntio ar ddarparu profiadau addysgu a dysgu o safon fyd-eang
- datblygu ffyrdd newydd o gyflenwi addysg uwch ran amser
- canfod ffyrdd newydd i gynorthwyo astudiaethau ôl-raddedig – er enghraifft drwy dreialu nifer fach o raglenni gradd israddedig cywasgedig gyda gradd Meistr trydedd flwyddyn â thâl wedi'i chyllido drwy'r system cymorth myfywrwyr statudol
- creu sector addysg uwch fwy 'hunangynhaliol' yng Nghymru, sy'n gallu darparu'r amrywiaeth ehangaf o'r pynciau sydd ar gael mewn mannau eraill yn y DU (er enghraifft cynnig y cyfle i astudio milfeddygaeth yng Nghymru).

Mae mynediad at addysg uwch drwy foddau astudio rhan amser yn hanfodol i'n buddiannau cenedlaethol. Mae arwyddion cynnar o effaith diwygiadau yn Lloegr yn awgrymu gostyngiad sylweddol iawn mewn darpariaeth ran amser gan gynnwys gostyngiad o 40 y cant mewn niferoedd rhan amser israddedig. Ni fydd effaith y diwygiadau ar niferoedd sy'n ymgymryd ag astudiaethau ôl-raddedig yn glir tan tua 2015. Mae'r darlun yn gymhleth a bydd angen i brifysgolion yng Nghymru adolygu'r datblygiadau'n ofalus i ddynodi pa ymyriadau fyddai'n fwyaf defnyddiol a phriodol, gan edrych ar yr holl opsiynau ar gyfer cynyddu mynediad at addysg uwch drwy amrywiaeth o foddau cyflenwi.

Yr hyn sydd ei angen yw dialog gweithredol rhwng y Llywodraeth a'r Prifysgolion yng Nghymru i archwilio'r opsiynau hyn ac eraill yn y dyfodol. Diben y ddogfen hon yw agor y dialog hwnnw.

## Cyllido a chymorth i fyfyrwyr yn y dyfodol

**Neges allweddol:** Bydd angen i brifysgolion a'r Llywodraeth fonitro effaith polisiau ar draws y DU yn ofalus i sicrhau bod unrhyw risgiau neu ansefydlogrwydd posibl a allai godi yn cael eu canfod, eu hystyried ac y gweithredir arnynt.

Er mwyn sicrhau bod gan Gymru'r sgiliau sydd eu hangen arni i gwrdd â heriau'r dyfodol, rhaid i brifysgolion a myfyrwyr allu cael yr adnoddau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod strategaeth glir o ran ffioedd dysgu a chymorth – bydd y polisiau cyllido addysg uwch a chymorth ffioedd dysgu a gyflwynwyd yn 2012–13 yn parhau'n weithredol o leiaf tan ddiwedd tymor cyfredol y Cynulliad. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i wneud nifer o newidiadau bob yn dipyn, ac mae'n bosibl y bydd rhai o'r rhain yn cael effaith anfwriadol ar brifysgolion yng Nghymru.

Bydd angen monitro ac adolygu modelau cyllido prifysgolion a chyllid myfyrwyr yn ofalus yng ngoleuni unrhyw newidiadau pellach mewn polisi neu nifer a llif myfyrwyr er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol posibl gan sicrhau nad yw prifysgolion yng Nghymru yn cael eu hansefydlogi o ganlyniad. Law yn llaw â risg daw cyfle a rhaid i brifysgolion geisio gwneud y defnydd gorau o unrhyw gyfleoedd yn y dirwedd newidiol hon.

Mae prifysgolion Cymru wedi bod yn arloesol drwy ddenu buddsoddiad o ffynonellau amrywiol. Er enghraifft mae Prifysgol Abertawe wedi denu cyllid o £60 miliwn ar gyfer ei champws Gwyddoniaeth ac Arloesi newydd gan Fanc Buddsoddi Ewrop. O ystyried y benthyciadau llog isel sydd ar gael ar hyn o bryd, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector i ganfod ffynonellau newydd o gyllid tymor hir er mwyn buddsoddi i gryfhau'r sector a'r hyn sydd ganddi i'w gynnig i fyfyrwyr ac ymchwilwyr.

## Cydnabyddiaethau

Delweddau ar dudalennau 4, 6 a 27 trwy garedigrwydd Prifysgol Caerdydd.

Delweddau ar dudalennau 8 a 13 © Prifysgol Bangor.

Delweddau ar dudalennau 18 a 24 © Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant.

Delwedd ar dudalen 25 o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru gan Joe Clark a Nick Guttridge.